

## **Cyngor Cymuned Betws y Coed Cofnodion cyfarfod 9fed o Hydref 2023**

**Presennol** – Ffiona Jones (Cadeirydd) Neil Pringle (Is-Gadeirydd) Bedwyr ap Gwyn, Chris Jones, Janet Charlton, Phil Roberts, Haf Jones ( Clerc)

1. **Ymddiehuriadau** – Sian Godbert, Cllr Elizabeth Roberts (adroddiad wedi ddarparu)

2. **Croeso a Chyflwyno** – Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Hwn oedd cyfarfod cyntaf Phil Roberts a chyflwynodd pawb i hunan. Penderfynwyd trefnu sesiwn sefydlu ar gyfer gwerthfawrogi cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned ar draws Betws y Coed ac i gylchredeg y Canllaw'r Cynghorydd Da i pob Cynghorydd.

3. **Datagan diddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda** – dim datganiad o ddiddordeb.

4. **Adroddiad gan Swyddogion Datblygu Cymuned.** Trosolwg o waith mis Medi wedi gylchredeg yn ddigidol hefo'r agenda.

Cais UKSPF wedi gyflwyno ar gyfer digwyddiadau cymunedol – aros am ganlyniad.

Ymweliadau a nifer o fusnesau yn y pentre' wedi'w gwneud ac yn parhau. Ymateb wedi bod yn bositif gyda ymrwymiad o arian i gefnogi digwyddiad Nadolig Betws. Noson Calan Gaeaf gymunedol wedi'w threfnu yn y neuadd ynghyd a nosos goelcerth Guto Ffowc yn Pentre Du. Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr ystyried cyllid sbarduno ar gyfer digwyddiadau cymunedol bach – penderfynnwyd neilltuo £1000 i'r pwrpas.

5. **PCSO Peter Jones**, Gorsaf Llanrwst. Cafwyd adroddiad o 1 digwyddiad o dorri-mewn i eiddo masnachol yn Rhiwddolion, Betws y Coed. Ymchwiliadau yn parhau, 2 ddigwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Pont y Pair a Ffordd yr Orsaf.

6. **Cofnodion cyfarfod mis Medi** – cafwyd rhain yn gywir.

7. **Materion yn codi o'r cofnodion** –

7.1 **Pont droed Pont y Pair** – Cyngor cyn cynllunio – Parc Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; dim arwydd o gefnogaeth neu fel arall ond rhestrwyd cyfres o adroddiadau ac astudiaethau fyddau rhaid bod ar gael i gyd-fynd a'r cais cynllunio. Penderfynnwyd cyn mynd i gostau pellach bod angen cyfarfod amlasiantaethol i gael dealltwriawth a ydi'r prosiect y bont droed yn ddichonadwy â chyflawnadwy gan gynnwys elurder ar gyfrifoldebau cynnal a chadw i'r dyfodol

7.2 **Tai Fforddiadwy** - cyfarfod 26ain o Fedi wedi ohirio, dyddiad i;w aildrefnu. Affordable Housing – Cartrefi Conwy Meeting of 26th September postponed.

7.3 **Pont y Pair** - Llysdyfiant – dim cynnydd.

7.4 **Fan y Llan** – Cais UKSPF wedi'w gyflwyno; aros am ganlyniad. Rheolwr Stad Awdurdod Cenedlaethol Eryri yn gefnogol o'r syniad ac o weithio mewn partneriaeth i'r dyfodol.

7.5 **Ffordd yr Orsaf**, man gollwng teithwyr bws – Rheolwr Stad PC Eryri yn adrodd bod y mater wedi’w ystyried a’r penderfyniad ydyw bod y safle ger Cae Llan yn creu perygl diogelwch i gerddwyr. Mae’r man parcio bysiau yn y maes parcio yn cael ei ystyried yn addas a ddigonol. Mae’r Cynghorwyr yn herio’r penderfyniad. Clerc i drefni cyfarfdo ar y safle.

7.6 **Clwb Peldroed Betws y Coed**, adnewyddu cegin – dim gwybodaeth a ‘wnaethpwyd cais UKSPF. Cadarnhad gan y Clerc mae uchafswm gwariant adran 137(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972-Terfyn Gwariant Adran 137 ar gyfer 2023-24 yw £9.93 fesul etholwr.

7.7 **Neuadd Goffa** - archwiliad asbestos – dim gan CCBC felly y Clerc i chwilio am brisiau gan gwmnïau annibynol. Dim gair am fan claddu Erw Hedd.

7.8 **Safle JD/Ultimate Outdoors** – aros am ddyddiad i’r gwaith gychwyn.

7.9 **Pont Soldiwr (Sappers Bridge)** – CCBC wedi trefnu digwyddiad ymgysylltu 27ain Hydref 1-7yh Neuadd yr Eglwys ble fydd dyluniadau prosiect arddangos i bwrpas arsylwadau.

7.10 **Cyfoeth Naturiol Cymru** – cau manau pasio; adroddwyd gan Swyddog Lleol CNC nad manau pasio yw’r ardaloedd sydd wedi’w cau ond ardaloedd pentyrru coed ac eu bod wedi cau i ffwrdd oherwydd problem gynyddol o werllysa answyddogol a’r sbwriel sydd yn cael eu adael.

Gordyfiant llysdyfiant – ffordd Coed Cynhelir sydd yn tyfu i’r ffordd i gael ei dorri’n nol yn fuan.

7.11 **Parcio hirfaeth ar linellau melyn** – wedi adrodd i Adran Gwasanaethau Gorfodi.

7.12 **Coed/Cae Llan** – aros am adroddiad gan Swyddog Coed CBSC.

8. **Adnoddau Dynol** – mae bellach 6 aelod o staff. Penderfynwyd ceisio cymorth adnoddau dynol proffesiynol i sicrhau bod cytundebau yn cydymffurfio a cyfraith cyflogaeth. Clerc i drefnu.

9. **Materion ariannol** – adroddiad am rhan o’r mis wedi baratoi gan and oedd y gyfriflen banc wedi’w derbyn. Pob taliad mewn trefn.

Gofynnodd y Clerc i ystyriaeth o sefydlu Pwyllgor materion ariannol – penderfyniad i sefydlu Pwyllgor Materion Ariannol.

10. **Cais Cynllunio NP4/11/39Z – Royal Oak Hotel** – dim gwrthwynebiad.

11. **Neuadd Goffa** – Torrodd y boeler gwresogi a cafwyd adroddiad gan y peiriannydd gwasanaeth ei fod tu hwnt i’w atgyweirio. Cafwyd tri pris a dyfarnwyd y gwaith o osod boeler newydd i A J Wainwright.

Adroddwyd gan y Gofalwr bod nifer o eitemau o ddodrefn wedi torri a bod lle storio yn brin. Penderfynnwyd gwneud rhestr o eitemau a llogi sgip ar gyfer eitemau and ydynt yn addas i’w ailddedfyddio neu ‘werthu gan Crest.

Nifer o ymholiadau ac archebion wedi’w derbyn gan gynnwys sesiynau Judo wythnosol.

Gofynnodd y Clerc i’r Cynghorwyr ystyried sefydlu Pwyllgor Neuadd Goffa. Penderfynnwyd sefydlu Pwyllgor Neuadd Goffa.

Y Clerc wedi neud cais i UKSPF am arian i gynnal arolwg o gyflwr allanol y Neuadd, arolwg egni ac ymgysylltu a’r gymuned ynglun a dyfodol y Neuadd. Aros am ganlyniad.

**12. Rhaeadr Ewynnol** – problem yn parhau efo mynediad cerdyn oherwydd cyflymder arageg y wifi BT. Stobe yn cynghori newid i 5g er mwyn cael cyflymder uwch â datrys y broblem o orfod talu un ar y tro. Bydd y gost tua £500 ynghyd a chost contract hefo EE. Bydd y contract presennol hefo BT yn dod I ben ar y 18fed o Fai 2024 ond efallai y bydd yn bosib ymadael yn gynnar oherwydd y cyflymder isel. Clerc i archwilio.

Bydd y Rhaeadr yn cael ei staffio nes dydd Sul 5ed o Dachwedd i gyfro hanner tymor. Ar ol hynny, ni fydd staff wrth law ond fe fydd y Rhaeadr ar agor I ymwelwyr. Bydd staff ar rota i ymweld a'r safle'n rheolaidd i'w archwilio.

Gofynnodd y Clerc am ystyriaeth o sefydlu Pwyllgor Rheoli'r Rhaeadr; penderfynnwyd sefydlu Pwyllgor Rheoli'r Rhaeadr.

**13. Cae Llan** – Roedd Cyng Liz Roberts wedi gwadd Swyddogion Lleoledd Lleol ar Gyfer Natur o CBSC a'r Parc i gyfarfod yn Cae Llan ble i archwilio cyfleon ariannu i ddatblygu â gwella cyrion y cae. Cynrychiolwyd y Cyngor Cymuned gan Chris Jones a chafyd trosolwg o'r cyfarfod gan Chris oedd yn cynnwys cael diddordeb a mewnbwn y gymuned a'r Ysgol yn y prosiect.

**14. Goleuadau Nadolig** – y broblem hefo goleuadau stryd ar yr A5 wedi'w drwsio gan NMWTRA. Ceisiadau am drwyddedi i ddefnyddio'r polion goleuadau stryd yn cael eu paratoi .

Goleuadau stryd Pentre Du wedi'w harchwilio gan CCBC a'u trwsio fel bo angen ar gyfer gosod y goleuadau Nadolig. Aros i'r goleuadau gael eu dychwelyd o archwiliad PAT gan CBSC.

Defnyddio polion goleuadau stryd; CBSC wedi cylchredeg polisi newydd gyda'r bwriad o godi tal am ddefnyddio goleuadau stryd gan gynnwys i'r pwrpas o fasedgi crog, hysbysebion ayyb Isafswn cost fydd oddeutu £500. Roedd y polisi i fod yn weithredol ar gyfer 2023 ond wedi'w ohirio nes 2024. Yn sgil y datblygiad hyn â chostau cynyddol, ailymwelwyd a'r costau o logi goleuadau am 5 mlynedd ac yn lle, penderfynnwyd prynu'r goleuadau. Y Clerc i gael cost gan y gosodwyr i storio'r goleuadau.

**15. UKSPF** – Mae £10k yr un wedi'w neilltuo ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thre' er budd balchder yn ein cymuned. Cafwyd trafodaeth ar beth i'w gynnwys yn y cias a phenderfynnwyd i geisio am CCTV ger Pont y Pair, diwedd y gwaith ffens ger Pont y Pair â newid y biniau glas mewn manau agored i rai o ddefnydd wedi'w ailgylchu.

**16. Er gwybodaeth:-**

- Cadw Cymru'n Daclus yn cynnig cymorth ar gyfer perllan gymunedol. Rhaid ir ardal fod o leia' 320sqm.
- Robin Millar AS yn cynnal cymhorthfa yn y Neuadd Goffa dydd Mercher 11eg o Hydref 0 12 tan 1 o'r gloch.
- CVSC - Cynhadledd 3ydd sector, Gwell gweithio gyda'n gilydd, Venue Cymru 3/11/23 – Clerc yn mynychu.
- Precept 2024 – dyddiad cau 19/1/2024
- Un Llais Cymru- D Day 80eg dathlu gyda coelcerthu 6ed o Fehefin 2024. Rhestr o cyrsiau hyfforddiant Medi a Hydref, Cynllun hyfforddiant angen ei gwblhau a chyfle i adnabod pa hyfforddiant fydd angen pryd hynny. Clerc i edrych ar gyfleon cwrs ILCA.

- Lawnsiad Cynllun Strategol Twristiaeth Cynladwy Gwynedd ac Eryri 2035 ar gael ar u-tube.
- Rali Cambrian yn ymweld a'r ardal ar y 28ain o Hydref.

**17. Unrhyw fater arall-**

- Sgip gymunedol ar gyfer Pentre Du. Clerc i drefnu.
- Ffens cyrion Cae Llan â Maes Parcio Ffordd yr Orsaf wedi difordi.

**18. Dyddiad y cyfarfod nesa'** – Nos Lun, 13eg o Dachwedd am 7 o'r gloch.

Llofnodwyd \_\_\_\_\_ Cadeirydd

Dyddiad \_\_\_\_\_